

# Adroddiad Blynyddol

## Trosolwg a Chraffu

### Cyngor Sir Ceredigion

#### 2014/15

#### Cyflwyniad

##### **Beth yw Trosolwg a Chraffu?**

Darparwyd trefniadau gweithrediaeth yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a welodd yr hen system bwyllgorau o lywodraeth leol yn cael ei disodli gan system lle mae gweithrediaeth fach, wedi'i diffinio'n glir (y Cabinet) yn gyfrifol am gynnig arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau o fewn fframwaith a gytunwyd gan y cyngor llawn; a lle mae pwyllgorau trosolwg a chraffu newydd yn adolygu perfformiad y weithrediaeth ac yn ceisio gwelliant a datblygiad parhaus.

Cyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2012, adolygodd Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu strwythur Trosolwg a Chraffu'r Cyngor gan ystyried nifer o ffactorau a oedd yn effeithio ar y ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau gan gynnwys argymhellion Llythyr Asesu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru Awst 2011. Roedd yr hen strwythur yn cynnwys un Pwyllgor Cydlynu a chwech o Bwyllgorau Pwnc Trosolwg a Chraffu a oedd yn cyfateb i chwe phortffolio'r Cabinet. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys pump o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu thematig, sef:

- Cymunedau Ffyniannus
- Cymunedau Iachach
- Cymunedau sy'n Dysgu
- Adnoddau Corfforaethol
- Cydlynu.

*Mae Canllawiau Statudol i'r Cyngorau Sir a'r Cyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen (2006) yn nodi bod pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth. O dan adran 21 o'r Ddeddf, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang*

iddynt ynghyd â'r gallu i gyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Swyddogaeth y cynghorwyr sy'n trosolygu ac yn archwilio yw:

- dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon –yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisiau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
- helpu i wella ac i ddatblygu polisiau'r cyngor drwy bwysu a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisiau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r cyngor llawn;
- adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt; ac
- edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ychwanegol, byddant yn gallu adolygu sut mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau ar faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallai hyn gael ei gyplysu â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gyhoeddwyd yn fwy diweddar yn nodi bod rôl glir i swyddogaeth graffu awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o'i rôl yn galw penderfynwyr a llunwyr polisi i gyfrif yn lleol, a'i rôl yn datblygu polisiau. Dylai hyn ymestyn i:

- graffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
- hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog ffyrdd gwahanol o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

## Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar saith achlysur yn ystod blwyddyn 2014/2015.

Ymhlith yr eitemau safonol a ystyrir ym mhob Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes Craffu a diweddariad gan y Cadeiryddion ar waith eu Pwyllgorau.

### Materion allweddol a ystyriwyd.

Ystyriodd y Pwyllgor ddatblygiad y Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2014/15. Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio'r Blaenraglenni Gwaith gan sicrhau eu bod:

- yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol
- yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol
- wedi'u cydlynu i osgoi dyblygu
- yn realistig ac yn hylaw o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- yn ychwanegu gwerth.

Cytunodd pob Pwyllgor y byddai'n ystyried eu Rhaglenni Gwaith unigol eu hunain yn unol â'r canllawiau yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Gwella drafft ar gyfer 2014/15 cyn iddo fynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor.

Ar 29 Mai 2014, cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ynghylch y cyfyngiad arfaethedig ar indemniadau a roddir i Aelodau sy'n amddiffyn achosion o gamymddwyn. Dywedwyd mai Cyngor Sir Ceredigion oedd un o'r Cynghorau olaf yng Nghymru i ystyried hyn.

Yn ystod y drafodaeth, mynegodd un o'r Cynghorwyr bryder ynghylch y gost i unigolion a gwasanaethau cyhoeddus pan gynigir indemniadau. Nodwyd y gallai'r costau dan sylw fod yn uchel iawn ac na fyddai darpar yswirwyr ond yn cynnig indemniadau mewn amgylchiadau prin. Codwyd pryder hefyd ynghylch y term *costau rhesymol*. Teimlwyd y gallai rhai yswirwyr weld hyn fel cyfle. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ystyried pob achos yn unigol.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhell i'r Cabinet bod y canlynol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad:

- dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn defnyddio cynrychiolaeth gyfreithiol oni bai bod yr achos yn un difrifol; a

- dylid sicrhau'r disgresiwn ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

Yn ystod y cyfarfod ar 12 Mehefin 2014, cyflwynwyd adroddiad ynghylch y cynnydd a wnaed o ran Cydwasanaethau Cyfreithiol Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae'r cydwasanaethau cyfreithiol wedi bod yn weithredol am rai blynyddoedd, gan rannu arfer gorau, cyfleoedd hyfforddi ac arbenigedd ynghyd â chydweithio i sicrhau gwerth am arian wrth gaffael gwasanaethau allanol. Cytunodd y Pwyllgor y dylid nodi'r cynnydd a wnaed gan nodi hefyd enghreifftiau o'r cydweithio o ran y prosiect hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Integredig Sengl drafft, cyn yr ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y cynigion yn y ddogfen ac ar ôl hynny.

Ar 16 Hydref 2014 a 22 Ionawr 2015, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn â'r opsiynau ynghylch gwneud arbedion ar gyllidebau'r gwasanaethau yn 2015/2016 gan gyflwyno adroddiad yn amlinellu ei argymhellion gerbron y Cabinet.

Hefyd ar 16 Hydref 2014, cafwyd adroddiad diweddar ynghylch Cynllun Rhannu Prentisiaethau Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid gofyn i Cyfle am ragor o wybodaeth ac y dylai adroddiad mwy manwl gael ei gyflwyno yn y dyfodol gan roi cyd-destun ehangach y cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau a oedd ar gael yn y Sir.

Ystyriwyd adroddiad arall ym mis Chwefror 2015. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â dogfen ymgynghori newydd Llywodraeth Cymru, ynghylch cyflenwi'r datganiad polisi ar sgiliau sef 'Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru'. Cytunwyd bod angen gwneud pob ymdrech i sicrhau y codir proffil prentisiaethau yng nghymunedau gwledig Cymru. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai'r pwnc hwn yn cael ei fonitro yn y dyfodol.

Daeth dau gynrychiolydd o Gynllun Rhannu Prentisiaethau De-orllewin Cymru (Cyfle) i gyfarfod y Pwyllgor i roi gwybodaeth am y cynllun prentisiaethau.

Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro polisi a gweithgareddau'r Awdurdod ynghylch Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Gwnaeth y Pwyllgor fonitro Cynllun Gweithredu Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed Ceredigion yn rheolaidd.

Ar 11 Rhagfyr 2014, cafwyd manylion Astudiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch trefniadau'r Awdurdod Lleol i gefnogi'r gwaith o ddiogelu plant gan gynnwys chwythu'r chwiban. Yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2014, bu i'r Pwyllgor Archwilio ofyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ystyried yr ymatebion arfaethedig a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yna adrodd eu canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio. Gwnaed hyn er mwyn rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn ymateb yn briodol i'r materion a'r cynigion a nodwyd. Ar ôl rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater hwn, bu i Aelodau'r Pwyllgor argymhell y dylai pob Aelod fynd ar hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2, ac y dylai'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a

Chraffu dderbyn adroddiadau bob hanner blwyddyn ar Chwythu Chwiban. Cytunwyd bod pob Aelod yn fodlon â'r trefniadau a gynlluniwyd neu a oedd yn cael eu cynllunio ar y pryd hwnnw ac y dylid cymryd y camau priodol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Ar 11 Rhagfyr 2014, croesawodd y Cadeirydd Carys Morgan, Swyddog Cydraddoldeb a Pholisi Iaith, i'r Pwyllgor. Cyflwynodd Mrs Morgan adroddiad ynghylch Cardiau Adrodd Grŵp Gweithredol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Dyfodol Dwyieithog a Strategaeth Iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion.

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn Cardiau Adrodd Grŵp Gweithredol Dyfodol Dwyieithog y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sef Economi a Lle (6b) a Byw'n Annibynnol (9d) o ran cyflawni'r targedau a osodwyd yng Nghynllun Integredig Sengl 'Ceredigion i Bawb'. Roedd hyn yn amodol ar newid statws CAG fersiwn Cymraeg cerdyn adrodd 6B. Bu i'r Pwyllgor hefyd gytuno i nodi Cynllun Gweithredu a Strategaeth Iaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion 2015-2020.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau chwarterol ynghylch y prosiect i adeiladu ysgol 3-19 yn Llandysul a byddai hyn yn parhau yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

### **Materion Trosedd ac Anhrefn**

Daeth Adrannau 19 ac 20, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009 i rym ar 1 Hydref 2009.

Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu:

- 'Pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn' a fyddai'n craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'r cyrff sy'n aelodau (y Cyngor, Heddlu Dyfed Powys, Panel Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef yr awdurdodau cyfrifol) wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran diogelwch cymunedol,
- Gweithdrefn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y bartneriaeth a'r cyrff sy'n aelodau ei dilyn wrth ymdrin â Chynghorwyr yn Galw am Weithredu (yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol).

Gwnaeth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu presennol y Cyngor ymgymryd â'r cyfrifoldebau dros faterion trosedd ac anhrefn.

## **Materion Trosedd ac Anhrefn a gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**

Yn wreiddiol, cafodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu creu gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau i leihau trosedd ac anhrefn. Bwriad Partneriaeth Ceredigion yw 'gweithio gydag unigolion, mudiadau a chymunedau i adeiladu cymdeithas ddiogel, deg a goddefgar i'r sawl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Cheredigion'. Yn ogystal â chynrychiolwyr yr awdurdodau cyfrifol, mae'r Partneriaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Troseddau Ieuencid Ceredigion, Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed-Powys, y Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, y Cydlynnydd Comisiynu Camddefnyddio Sylweddau a'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol.

Daeth Mr Christopher Salmon, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i gyflwyno ei hunan.

### Materion allweddol a ystyriwyd

Rhoddodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol ac Argyfyngau Sifil Posibl gyflwyniad ynghylch Asesiad Strategol Diogelwch Cymunedol 2013-14 i'r Pwyllgor ynghyd â diweddariadau rheolaidd ynghylch Diogelwch Cymunedol. Yn sgil hyn, nododd yr aelodau fod swydd y Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn wynebu dyfodol ansicr o ran ariannu. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i dynnu sylw at bwysigrwydd y rôl hon ac am yr ansicrwydd o ran ariannu. Cafwyd ymateb a oedd yn esbonio'r sefyllfa.

## **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar saith achlysur gwahanol yn ystod blwyddyn 2014/2015.

### Materion allweddol a ystyriwyd.

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd datblygiad y Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2014/15. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ar 14 Gorffennaf 2014, cafodd Aelodau'r Pwyllgor ddiweddariad ynglŷn ag eiddo a thir gwag y Cyngor a'r rheini a oedd yn tanberfformio. Fel rhan o'r broses rheoli asedau eiddo a'r Cynllun Busnes Ystadau a Phrisio, cyflwynir adroddiadau misol i Weithgor Cyfalaf y Cyngor ynglŷn ag eiddo a thir gwag a'r rheini a oedd yn tanberfformio. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn aelod o'r Gweithgor ac mae felly wedi derbyn diweddariadau misol.

Hefyd, yn y cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2014, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol perfformiad a rôl Portffolio Ffermydd y Cyngor Sir a chytunwyd y dylai'r adroddiad ar Ffermydd y Sir gael ei ystyried ymhellach ar ôl derbyn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar Ffermydd Sir yng Nghymru fel prosiect buddsoddi i arbed. Ar 3 Tachwedd 2014, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran yr adolygiad. Daeth yr adolygiad i'r casgliad gan nad oedd yr arbedion wedi'u nodi na fyddai'r prosiect yn parhau. Byddai angen i unrhyw waith prosiect ar y cyd yn y dyfodol ar Ystadau Ffermydd y Sir gael ei ariannu gan yr Awdurdodau yn hytrach na'r gronfa buddsoddi i arbed. Nid oedd y swyddogion yn medru nodi unrhyw fanteision o weld Ceredigion yn parhau â rhagor o gydweithio ar y sail hon. Dosbarthwyd copi o adroddiad ynghylch y mater hwn a ystyriwyd gan Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 20 Mawrth 2015 ymhlith Aelodau'r Pwyllgor a gofynnwyd iddynt a oeddent yn dymuno ystyried rôl a pherfformiad Ystâd Ffermydd Sir Ceredigion. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor nad oedd angen gwneud rhagor o waith ar hyn o bryd.

Yn yr un cyfarfod, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad ynglŷn â pherfformiad Ystâd Gorfforaethol y Cyngor a chyflwynwyd adborth i'r Cabinet fel a ganlyn:

Cytunwyd y dylid cefnogi'r penderfyniad a wnaethai'r Cabinet yn y cyfarfod ar 1 Gorffennaf 2014, fel a ganlyn:

- Mynd ati'n rhagweithiol i roi'r eiddo a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad ar werth;

- Byddai Swyddogion yn adnabod cyfleoedd i ddefnyddio unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw o werthu'r eiddo yn Atodiad 1 i gynhyrchu incwm a/neu werth ychwanegol i'r Awdurdod a llunio adroddiad i'r Cabinet gydag argymhellion; a
- Dylai'r Cyngor gadw'r Eiddo a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad (yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol) heblaw am unrhyw eithriadau a ddaw gerbron y Cabinet.

Cytunwyd ar hyn er mwyn i'r Cyngor elwa o werth cynyddol yr ystad gorfforaethol a'r incwm cynyddol sy'n deillio o hynny.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau TGCh a Chwsmeriaid adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol ynglŷn â gohebiaeth Cynghorau Cymuned. Cytunwyd i ddatblygu Siarter Cwsmeriaid a fyddai'n rhoi canllawiau i Ddinasyddion ac Aelodau Ceredigion ynglŷn â lefel y gwasanaeth y dylent ei ddisgwyl.

Yn y cyfarfod ar 2 Hydref 2014, cytunodd aelodau'r Pwyllgor y dylid ystyried y Siarter drafft a bu iddynt gyflwyno'r argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- Nodwyd y bu rhai achosion lle anfonwyd llythyr i gadarnhau derbyn ymholiad drwy e-bost, pan oedd ymateb eisoes wedi'i ddarparu drwy e-bost. Awgrymodd y Pwyllgor anfon ymateb ar yr un ffurf â'r ymholiad, hynny yw, os derbynnir e-bost, dylid anfon e-bost i gydnabod ac yn y blaen;
- Mewn ymateb i unrhyw gais, dylid anfon cadarnhad ymhob achos ymhen saith diwrnod gwaith, ac ymdrin ag unrhyw ymholiad ymhen un diwrnod ar hugain, fel y bo modd; os na fydd hyn yn bosibl, dylid anfon eglurhad;
- Ystyried ffurfio tîm penodol i ymdrin â'r holl ohebiaeth a ddaw i mewn fel rhan o'r ymarfer 'Risg a Gwobr'.
- Dileu'r geiriau 'Os aiff rhywbeth o'i le', gan roi yn eu lle 'Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau ar ei wasanaethau, boed y rheiny'n gadarnhaol neu'n negyddol';
- Dylid atgoffa pob aelod o staff fod yn rhaid cario cerdyn adnabod wrth fynd ar bob ymweliad ar ran Cyngor Sir Ceredigion, a dylid ystyried dod â chardiau busnes yn ôl i staff;
- Soniodd un Cynghorydd am rai achosion lle gall fod yn drafferthus ymateb i ymholiadau a dderbynnir yn Gymraeg, gan ddweud y dylid atgoffa pob aelod o staff o Bolisi Iaith y Cyngor;
- Gofynnodd yr Aelodau am fonitro gofynion y Siarter Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn rheolaidd, a bod aelodau o staff yn cael adborth yn ystod eu gwerthusiadau.

Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol argymhell bod y Cabinet yn derbyn y Siarter Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn amodol ar ystyried y



materion uchod. Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fod adroddiad monitro blynyddol yn cael ei gyflwyno iddynt yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Yn yr un cyfarfod, cafwyd esboniad am y broses dendro gan gynnwys tystiolaeth ar wybodaeth ystadegol o ran contractwyr lleol. Yn ystod y drafodaeth, gwnaed yr awgrymiadau canlynol:

- ychwanegu geiriad at gontractau ar gyfer gwaith a wneir mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, megis "dylid hysbysu trigolion yr annedd ymlaen llaw ynglŷn â phryd fydd y gwaith yn dechrau"
- ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y Broses Dendro.

Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol i nodi'r Broses Dendro yn amodol ar ystyried yr uchod.

Daeth cynrychiolydd o Menter a Busnes hefyd i'r cyfarfod i roi gwybodaeth am y modd yr oeddent yn cynorthwyo busnesau â'r broses tendro electronig. Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn ddefnyddiol.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu ymateb y Cyngor i argyfwng llifogydd Ceredigion ym mis Mehefin 2012. Ymwelodd Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen â Grŵp Llifogydd Talybont yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol a chytunwyd y dylid ymweld â'r ardaloedd eraill yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt. Diben y cyfarfodydd hyn oedd cynnal trafodaethau anffurfiol ynghylch sgîl-effeithiau'r llifogydd, gan roi'r cyfle i'r trigolion lleol i siarad am yr hyn ddigwyddodd yn ystod y llifogydd ac ar ôl hynny, gan dynnu sylw at unrhyw bryderon/gofidiau a allai dal fod yn berthnasol. Ar ddechrau mis Mai 2014, cynhaliodd Aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth. Canmolwyd yr Awdurdod Tân a Swyddogion y Cyngor Sir am eu hymdrechion parhaus yn ystod y broses glirio. Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Swyddog Cymorth Trosolwg a Chraffu ag un o drigolion Clarach a chafwyd adroddiad ysgrifenedig ynghylch y llifogydd ym mhlwyf Trefeurig.

Cynhaliodd y grŵp hefyd gyfarfod cyhoeddus yn Aberteifi gan fod llifogydd mawr wedi effeithio ar y trigolion yn y gorffennol.

Galwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar 19 Ionawr 2015 i ystyried yr adroddiadau a baratowyd ar ôl pob ymweliad a oedd yn nodi'r pwyntiau a godwyd, ynghyd â'r argymhellion perthnasol. Cyflwynwyd yr argymhellion a gytunwyd arnynt wedyn i'r Cabinet ar 12 Mai 2015. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ymweld ag unrhyw gymunedau eraill sydd wedi wynebu llifogydd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn â'r opsiynau ynghylch gwneud arbedion ar gyllidebau'r gwasanaethau yn 2015/2016 gan gyflwyno adroddiad yn amlinellu ei argymhellion gerbron y Cabinet.

Ar 29 Ionawr 2015, cyflwynwyd adroddiad ynglŷn â pharatoi cyllideb gytbwys ar gyfer 2015/2016. Ar ôl ystyried hyn yn ofalus, cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad i'r Cabinet a oedd yn cytuno â'i argymhellion.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol am gyflwyno adroddiad yn y cyfarfod ar 19 Mawrth 2015 ynglŷn â'r effaith ar drigolion lle'r oedd llyfrgelloedd wedi cau neu wedi'u trosglwyddo i'r gymuned. Ar 26 Tachwedd 2013, cymeradwyodd y Cabinet y toriadau a oedd angen eu gwneud i'r gyllideb er mwyn cwrdd â'r arbedion angenrheidiol i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2014/2015. Nodwyd rhai arbedion drwy aildrefnu strwythur rheoli'r gwasanaeth llyfrgelloedd, gostwng nifer y faniau sy'n rhan o'r gwasanaeth symudol o bump i bedwar, a chau llyfrgelloedd Tregaron a Cheinewydd, gyda gwasanaeth symudol yn eu lle.

Mynegodd Cyngor Cei Newydd ddiddordeb mewn cynnal gwasanaeth llyfrgell yn y dref gan ddefnyddio gwirfoddolwyr ac ar ôl trafodaeth hir, datblygwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir a chafwyd cytundeb rhwng y ddwy ochr.

Roedd Llyfrgell Tregaron yn rhan o'r Ysgol Uwchradd ac wedi'i lleoli yn adeilad yr hen ysgol ar draws y ffordd o'r brif ysgol. Adeg y cynnig i gau'r llyfrgell, gofynnodd yr ysgol a fyddai modd ei chadw ar agor ar gyfer eu hanghenion nhw a byddai'r disgyblion wedyn yn cael eu hebrwng yno neu byddai athro yn mynd â llyfrau o'r llyfrgell at ddefnydd yr ysgol. Ar ôl cyfarfod cyhoeddus yn Nhregaron, cytunwyd y dylai cadw'r llyfrgell gan agor am lai o oriau hyd nes y byddai Cyngor y Dref a'r Awdurdod wedi cytuno ar ateb arall.

Gwahoddodd Cadeirydd y Pwyllgor gynrychiolydd o Gyngor Tref Cei Newydd i'r cyfarfod ar 19 Mawrth 2015 i roi adborth ynglŷn â phrofiad Cyngor y Dref o ddarparu gwasanaeth llyfrgell gan wirfoddolwyr. Dechreuodd y gwasanaeth gwirfoddol ar 1 Mehefin 2014 ac ar ôl rhai problemau technegol, roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd llwyddiannus gan y gwirfoddolwyr. Cytunwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei fonitro bob blwyddyn ac y byddai cynrychiolydd o Gyngor y Dref yn cael ei wahodd unwaith eto i gyfrannu at y Pwyllgor.

Yn yr un cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr Adolygiad o'r Prosiect Codi a Chario wrth Ofalu ac ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach yr eitem yn ei gyfarfod dyddiedig 23 Mawrth 2015. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'n arferol i ddarparu dau ofalwr ar gyfer gofal

safonol yn enwedig gofal yn y gwely neu wrth ddefnyddio hoist. Roedd hyn yn aml yn hollol briodol am nad oedd cyfarpar addas ar gael i leihau'r risgiau wrth i un gofalwr ddarparu'r gwaith gofal yn ddiogel.

Ar ôl hynny, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet a oedd yn argymhell y canlynol:

- Dylai Aelodau'r Pwyllgor ymweld â Chanolfan Byw'n Annibynnol Ceredigion i weld y cyfarpar newydd ar waith;
- Dylai'r ffurflen Asesu Risg a ddefnyddir i nodi pecynnau gofal posibl a ddarperir gan un gofalwr yn y dyfodol hefyd sicrhau nad oes rheswm arall i'r unigolyn beidio â chael ymweliad unigol. Roedd hyn er mwyn diogelu gweithwyr unigol. Nodwyd, fodd bynnag, fod Polisi Gofalwyr Unigol hefyd yn cael ei lunio a fyddai'n cynnwys darpariaethau digonol i ddiogelu gweithwyr unigol;
- Roedd yn dda nodi bod y Gweithwyr Gofal yn awyddus i gael eu hyfforddi ac ennill sgiliau newydd. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig cadw'r staff presennol, a bu iddynt argymhell y dylid adolygu eu cyflogau yn y dyfodol agos;

Adolygwyd y Polisi Disgyblu presennol yn unol â gofyniad y Cynllun Busnes Adnoddau Dynol, i sicrhau bod y Polisi yn cydymffurfio ag arfer da a'i fod yn addas at y diben. Ystyriwyd bod angen cryfhau'r polisi mewn rhai meysydd, yn enwedig y canllawiau i Reolwyr. Yn dilyn y drafodaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mawrth 2015, cyflwynodd y Cadeirydd yr argymhellion canlynol gerbron y Cabinet:

- Dylid cynnwys rhybudd yn Atodiad 5 sy'n cyfeirio at y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol;
- Nodi a derbyn y polisi yn amodol ar ystyried yr uchod.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ebrill 2015, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan gytuno i argymhell y canlynol i'r Cabinet:

- cymeradwyo'r amcanion cydraddoldeb diwygiedig;
- cadarnhau'r Adroddiad Monitro; a
- chymeradwyo Adroddiad Perfformiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amodol ar ystyried y pwyntiau a godwyd uchod.

Nodwyd bod yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

## **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar ddeuddeg achlysur gwahanol yn ystod 2014/2015.

### Materion allweddol a ystyriwyd.

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd datblygiad y Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2014/15. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ar 5 Mehefin 2014, cafodd y Pwyllgor adroddiad y Grŵp Gweithredol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a chytunodd yr Aelodau â'r argymhelliad yn yr adroddiad sef y dylid nodi'r gwaith sy'n parhau o ran sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, gan gydnabod y risgiau sy'n bodoli o ran sicrhau bod y gwasanaethau a amlinellwyd uchod yn medru parhau. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad ar yr amod bod yr argymhelliad yn ystyried y Gyllideb sydd ar gael i'r Cyngor.

Hefyd yn y cyfarfod ar 5 Mehefin 2014, cyflwynwyd adroddiad ynghylch datblygu Strategaeth Gweithgareddau Hamdden a Chwaraeon Ceredigion ar gyfer 2014-2020 ac ystyriwyd hyn gan yr Aelodau. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd yn adrodd y canlynol gerbron y Cabinet:

- Dylai Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cabinet ystyried y gwaith a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach;
- Dylid cyflwyno adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol er mwyn diweddarau'r Aelodau ynghylch y cynnydd a wneir.

Fel rhan o'r adolygiad ynghylch darparu Gwasanaethau Hamdden y Cyngor yng Ngheredigion yn y dyfodol, roedd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach wedi ymweld â Chanolfannau Hamdden a Phyllau Nofio'r Sir ar 28 Ionawr 2014.

Hefyd, ystyriodd yr Aelodau y 'Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacnai a Hurio Preifat, y Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Chwmnïau' yn yr un cyfarfod. Gwnaeth y Cadeirydd argymhell y dylai'r Cabinet dderbyn y polisi yn amodol ar awgrymiadau ynghylch geiriad y ddogfen.

Yn y cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2014, ystyriodd yr Aelodau adroddiad ynghylch Dynodi Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol i Geredigion ac effaith

hyn ar y trigolion. Cytunodd yr Aelodau i gefnogi dulliau yng Ngheredigion o wella'r safonau a'r trefniadau o ran rheoli llety rhent.

Gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad ynglŷn â'r cynnydd yn y nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal yn y Sir fel y'u nodir ar gofrestr risgiau Cyngor Sir Ceredigion. Cafwyd y wybodaeth hon hefyd ar 15 Gorffennaf 2014. Yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau'n fodlon fod y gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal yn gwneud ei orau glas i liniaru'r pryder hwn.

Cyflwynwyd Adroddiad Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd Consortiwm Canolbarth a Gorllewin Cymru 2013/14 i'r Pwyllgor ar 15 Gorffennaf 2014. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod y model cyflenwi newydd hwn yn gweithio'n dda i deuluoedd yng Ngheredigion a nodwyd bod y rhanbarth wedi cydnabod yr angen i ymestyn y gwasanaeth yn y sir am ei fod yn wasanaeth ataliol hanfodol. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad i'r Cabinet ar 29 Gorffennaf 2014 gan wneud yr argymhelliad canlynol:

- Gofynnwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arian grant i gefnogi'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y prif gyflawniadau a'r canlyniadau cadarnhaol a fesurwyd, sy'n cefnogi'r angen am wasanaeth o'r math hwn o fewn ardaloedd gwledig.

Cyflwynodd Peter Llewellyn, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, adroddiad diwedd blwyddyn Gwaith Rhanbarthol Partneriaeth Mesur Gofalwyr y 3 Sir gerbron y Pwyllgor ar 18 Medi 2014, a rhoddwyd adborth fel a ganlyn i'r Cabinet:

- Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach y dylid nodi'r adroddiad diwedd blwyddyn ynghylch Gwaith Rhanbarthol Partneriaeth Mesur Gofalwyr y 3 Sir gan gydnabod y cyflawniadau a'r cynnydd penodol a wnaed yn y sir.

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 12 Medi 2014 i ystyried Deddf Cartrefi Symudol 2013. Ar ôl ystyried hyn, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:

- Dylai swyddogion ymgynghori â phreswylwyr a pherchnogion cartrefi symudol ar safleoedd sydd eisoes yn bod ynglŷn â'r taliadau a gynigir, ond nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod y cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod a gynigir yn ddigonol, ac mae'n argymhell ei ymestyn i 28 diwrnod. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell y dylid esbonio pam y cyflwynir y ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer Cartrefi Symudol. Dylid ei gwneud yn amlwg nad yw'r Awdurdod yn manteisio ar gyfle i sicrhau enillion ariannol;
- Dylid cynnal y gwiriadau Disclosure Scotland ymhob achos, a dylai'r Polisi Person Addas a Phriodol wneud hynny'n eglur;

- Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryderon a oedd yr Awdurdod yn meddu ar ddigon o adnoddau i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol hwn;
- Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor yr argymhelliad i ddirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw weinyddu a gorfodi darpariaethau Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 fel y bo'n briodol;
- Gofynnir bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn derbyn adroddiadau diweddarau blynyddol.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynglŷn â'r opsiynau ynghylch gwneud arbedion i gyllidebau'r gwasanaethau yn 2015/2016 gan gyflwyno adroddiad yn amlinellu ei argymhellion gerbron y Cabinet.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i dderbyn adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol bob chwarter.

Roedd y trefniant o ran caniatáu i bobl hŷn a defnyddwyr ag anableddau dysgu ddefnyddio Canolfan Ddydd Yr Hafod yn parhau ac ymwelodd rhai o Aelodau'r Pwyllgor â'r Ganolfan Ddydd ar 29 Hydref 2014. Pwrpas yr ymweliad oedd canfod barn defnyddwyr gwasanaeth y Ganolfan Ddydd am y cynlluniau arfaethedig ar gyfer y ganolfan yn y dyfodol. Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 2 Rhagfyr 2014 a nodai'r canlynol:

- Mae'n ymddangos bod rhan fwyaf defnyddwyr y gwasanaeth yn fodlon ar y cynlluniau arfaethedig. Er hynny, gwnaeth rhai ohonynt fynegi eu siom a'u pryder nad oedd y cyllid a ddyrannwyd yn flaenorol ar gyfer estyniad i'r Hafod bellach ar gael. Mae'r unigolion sydd ag Anableddau Dysgu a'r bobl hŷn yn fodlon rhannu'r gwasanaethau ac maent yn canmol y staff sy'n gofalu amdanynt.

Cyflwynwyd y Polisi Cymorth Ariannol i'r Sector Tai Preifat i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor argymhell i'r Cabinet y dylid mabwysiadu Polisi Grantiau a Benthyciadau y Sector Tai Preifat yn amodol ar y canlynol:

- ystyried codi'r trothwy o £10,000;
- rhoi mwy o bwyslais ar gymunedau gwledig yn y polisi; a
- chyflwyno adroddiad arall yn y dyfodol fel y gall y Pwyllgor ystyried ei effaith.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod Tipio Anghyfreithlon, a oedd yn cynnwys pum aelod o'r Pwyllgor. Ar ôl ymchwilio, daeth y grŵp i'r casgliad ei fod yn cydnabod mai problem fechan yw Tipio Anghyfreithlon yng Ngheredigion o gymharu ag awdurdodau eraill drwy Gymru.

Ar 5 Rhagfyr 2014, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad i Gyngor Sir Ceredigion o ran ymgysylltu ac ymgynghori ar ystod o opsiynau ynglŷn â dyfodol Cartrefi Gofal Preswyl yng Ngheredigion yn seiliedig ar yr Adolygiad o Ofal Preswyl a baratowyd gan *Housing Research Ltd* ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn rhan o'r broses hon ac y byddai'r aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar bob adeg. Mae adroddiadau wedi'u cyflwyno drwy'r cyfnod adrodd hwn a bydd hynny'n parhau yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Bu Angela Williams, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yn y cyfarfod 23 Ionawr 2015 i gyflwyno Adroddiad Gwerthuso Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Roedd yr Aelodau'n falch bod Angela Williams wedi dod i'r cyfarfod a bu iddynt nodi'r gwaith da a oedd wedi'i wneud.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu pum aelod o'r Pwyllgor yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes Amlinellol Cylch Caron gan adrodd yn ôl i'r prif bwyllgor pan fo hynny'n briodol a byddant yn parhau i wneud hynny yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Cyflwynwyd y Strategaeth Gwasanaeth Drafft ar gyfer Pobl Hŷn yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf (Mawrth 2014) ac arweiniodd hyn at sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen. Gwnaeth y grŵp hwn barhau i gwrdd ar sawl achlysur yn ystod cyfnod adrodd 2014/15 i gasglu barn cyrff allanol ynghylch y strategaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Hywel Dda ac Age Cymru. Gofynnwyd am fewnbwn gan ofalwyr ynglŷn â'u barn am y Strategaeth. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad i'r Cabinet yn argymhell y canlynol:

- Dylai pob Cyngorydd fynd i sesiwn briffio ynghylch y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y dyfodol agos;
- Cytunwyd y dylid derbyn y Strategaeth Gwasanaeth Drafft ar gyfer Pobl Hŷn yn amodol ar ystyried y polisïau yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Ar y sail hon, argymhellir bod y Cabinet yn mabwysiadu'r Strategaeth.
- Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd o'r farn y byddai'n well pe byddai un Ganolfan Gyswllt gyffredinol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion gyfan yn cefnogi'r Strategaeth.
- Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn effeithio ar nifer o wasanaethau yn yr Awdurdod Lleol ac mae'n hanfodol fod yr holl wasanaethau yn ymwybodol o'r goblygiadau. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymhell y dylai Penaethiaid y Gwasanaethau ddod yn gyfarwydd â chynnwys y Bil.

Cynhaliwyd gweithdai i'r Aelodau drwy'r cyfnod adrodd ynglŷn â Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Cyfeiriwyd adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach ynghylch y pwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd ac ystyriwyd hyn yn y cyfarfod ar 12 Chwefror 2015. Cytunwyd y byddai grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i archwilio'r gwasanaeth hwn yng Ngheredigion a byddai canfyddiadau'r grŵp yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Archwilio maes o law. Bydd y grŵp yn parhau â'r gwaith hwn yn y cyfnod adrodd nesaf.

Hefyd yn y cyfarfod ym mis Chwefror, cyflwynwyd y Polisi Cyffredinol Trwyddedu Cerbydau Hacnai a Hurio Preifat a chyfeiriwyd y pryderon canlynol i'r Cabinet:

- Mynegwyd pryderon wrth gyfeirio at seddi diogel i blant. Mae'r polisi yn nodi pan nad oes seddi diogel ar gael i blant y gall y plentyn deithio heb sedd ddiogelwch. Gofynnir am eglurhâd i weld a yw hyn yn cydfynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â thrwyddedau cerbydau hacnai sy'n cael eu rhoi gan awdurdodau eraill i unigolion sydd yn byw eu hardal ond sydd yn gweithredu yng Ngheredigion ac i'r gwrthwyneb. Hoffai'r Pwyllgor weld Awdurdodau unigol yn delio â'r mater hwn mewn modd cyson.

Ar ôl ystyried hyn yn ofalus, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach i wneud y canlynol: Nodi a derbyn y polisi yn ddibynnol ar ystyried y pwyntiau uchod a chael eglurhad ohonynt.

Yn y cyfarfod ar 12 Chwefror 2015, rhoddodd y Tîm Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed gyflwyniad oherwydd pryderon am nifer gynyddol yr atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed a gofnodwyd ar gofrestr risg Cyngor Sir Ceredigion. Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach i nodi'r diweddariad am y gweithgareddau i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, a chymeradwyodd y camau i ailstrwythuro'r staff a gyflwynwyd ar 2 Chwefror 2015. Cytunwyd y bydd y Pwyllgor yn cael adroddiadau blynyddol gan y Tîm Amddiffyn Oedolion yn y dyfodol.

Ar 23 Mawrth 2015, rhoddodd Ryan Evans o Uned Benthycyca Arian Anghyfreithlon Cymru gyflwyniad diddorol ynglŷn â benthycwyr arian didrwydded. Eglurodd Mr Evans beth yw nodweddion arferol y benthycwyr hyn. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod Uned Benthycyca Arian Anghyfreithlon Cymru wedi dechrau codi ymwybyddiaeth ymhlith plant ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae llyfrynnau gwybodaeth wedi eu paratoi at y diben hwnnw.

Ar ôl ystyried y mater yn drylwyr, CYTUNODD Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau lachach i argymhell fel a ganlyn:

- Dylai'r Cabinet gefnogi menter yr Uned Benthycyca Arian Anghyfreithlon i godi ymwybyddiaeth ymhlith yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ac annog Ysgolion



Cynradd ac Uwchradd Ceredigion i gyfranogi;

- Dylai Gwasanaethau Dysgu Ceredigion sicrhau bod yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael yr wybodaeth sydd ar gael gan gynorthwyo'r Athrawon i gynnwys yr adnoddau fel rhan o'r rôl ddysgu sydd ganddynt;
- Dylai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau sy'n Dysgu gefnogi'r fenter hefyd.

Cytunodd y Cabinet i gadarnhau argymhellion y Pwyllgor.

Yn ystod yr un cyfarfod, cafodd Aelodau'r Pwyllgor gyflwyniad ynglŷn ag ymgyrch y Safonau Masnach yn erbyn Twyll ar y Farchnad Dorfol. Ar ôl trafod hyn yn ofalus, cytunodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau iachach argymell y canlynol i'r Cabinet:

- Bydd y Tîm Safonau Masnach yn cynnal cynhadledd/cynadleddau i addysgu partneriaid perthnasol Ceredigion a Chyrff Trydydd Parti gan godi ymwybyddiaeth am y mater;
- Bydd y Tîm Safonau Masnach yn gweithredu'r gwaith partneriaeth i fynd i'r afael â sgamiau at y dyfodol a'u lleihau.

Ar 23 Mawrth 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adolygiad o Godi a Chario ym maes Gofal. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol ymweld â Chanolfan Byw'n Annibynnol Ceredigion yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet a oedd yn argymell y canlynol:

- Dylai Aelodau'r Pwyllgor ymweld â Chanolfan Byw'n Annibynnol Ceredigion i gael gweld y cyfarpar newydd yn cael ei ddefnyddio;
- Dylai'r ffurflen Asesu Risg a ddefnyddir i bennu pecynnau gofal posibl lle defnyddir un gofalwr hefyd sicrhau nad oes unrhyw reswm arall pam na ddylai'r unigolyn gael ymweliad gan un gofalwr, a hynny i ddiogelu'r rheini sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain. Nodwyd, fodd bynnag, fod Polisi Gofalwyr Unigol hefyd yn cael ei ddrafftio i gynnwys darpariaethau digonol i ddiogelu'r rheini sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain;
- Roedd yn galonogol nodi bod Gweithwyr Gofal yn awyddus i gael hyfforddiant ac i wella'u sgiliau. Roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig iawn cadw'r staff presennol, ac yn argymell y dylid adolygu'u cyflogau yn y dyfodol agos;
- Roedd yn galonogol nodi bod Gweithwyr Gofal yn awyddus i gael hyfforddiant ac i wella'u sgiliau. Roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig iawn cadw'r staff presennol, ac yn argymell y dylid adolygu'u cyflogau yn y dyfodol agos.

Ar 15 Ebrill 2015, cyflwynodd Buddug Ward, Pennaeth y Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant, adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Pwyllgor am yr Arolygiad o Gyngor Sir Ceredigion o ran "Diogelu a Chynllunio Gofal Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal sy'n agored i niwed neu sy'n ymddwyn mewn ffordd beryglus". Bu i'r Aelodau nodi'r gwaith rhagorol a wnaed gan y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal. Ar ôl ystyried yr adroddiad, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn dwyn y pryderon a nodwyd ynghylch anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal i sylw'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Ymddangosodd y Tîm Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed gerbron y Pwyllgor eto ar 15 Ebrill 2015 i roi gwybod i'r Aelodau fod Model Diogelu Oedolion wedi'i baratoi. Gan mai dogfen ddrafft oedd hon, cytunwyd y bydd y Tîm Amddiffyn Oedolion yn dychwelyd gerbron y Pwyllgor pan fydd y ddogfen wedi'i chwblhau. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i gymeradwyo'r Model Diogelu Oedolion. Cytunwyd hefyd y byddai'n fuddiol i HOLL Gynghorwyr Cyngor Sir Ceredigion gael hyfforddiant ynghylch y protocol Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.

Daeth cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymuned i'r cyfarfod ym mis Ebrill 2015 gan roi cyflwyniad am y gwaith yr oedd yn ei wneud. Cynigiodd aelodau'r Pwyllgor y dylid gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol a chytunwyd pe byddai angen craffu ar bwnc perthnasol y byddai modd trefnu gweithdy craffu ar y cyd.

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar saith achlysur yn ystod blwyddyn 2014/2015.

### Materion allweddol a ystyriwyd

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch datblygu Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch ailstrwythuro o fewn y Gwasanaethau Dysgu. Cynigiwyd y dylid rhoi strwythur Uwch Reolwyr ar waith i wasanaethu'r meysydd isod:-

- Pennaeth Gwella Ysgolion
- Pennaeth AAA, Cynhwysiant a Lles
- Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid ac Addysg Barhaus
- Pennaeth Seilwaith Addysgol

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Tlodi Plant Ceredigion 2011-14. Dywedwyd bod yr adroddiad, trwy gyfrwng y geiriau a'r tablau, yn amlinellu gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc Ceredigion.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Diwedd Blwyddyn Teuluoedd Yn Gyntaf 2013/14 a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau ynghylch y cynnydd a wnaed o ran rhaglen Teuluoedd Yn Gyntaf yng Ngheredigion.

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch y Ganolfan Athrawon - system wybodaeth i ysgolion. Dywedwyd bod y datblygiadau newydd yn y Ganolfan Athrawon wedi arwain at uwchraddio a galw am y system yn rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r modd yr oedd y system yn cael ei datblygu'n barhaus fel y gellid gosod y system ar les i Awdurdodau eraill a/neu Lywodraeth Cymru; a'r gwaith a oedd yn parhau gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddatblygu ac ehangu'r hyn y gall y Ganolfan ei wneud ar hyn o bryd a dod o hyd i ddatrysiadau o ran storio.

Ystyriwyd Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Dysgu ynghylch Prydau Ysgol am Ddim. Rhoddodd y Rheolwr Datblygu Cyfrifiadurol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch disgyblion cymwys nad oeddent yn hawlio prydau ysgol am ddim a'r pryder bod diffyg systemau di-arian (nad ydynt yn defnyddio arian parod) yn ysgolion Ceredigion yn cyfrannu at y sefyllfa. Cytunodd yr holl Aelodau y byddai system nad oedd yn defnyddio arian parod yn lleihau'r stigma a oedd ynghlwm wrth

brydau ysgol am ddim, yn enwedig yn y sector uwchradd. Roedd yr Aelodau a'r Swyddogion o'r farn ei bod yn annerbyniol bod disgyblion a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn cael eu trin yn wahanol i'w cyfoedion. Roedd y Rheolwr Datblygu Cyfrifiadurol felly yn rhagweld y byddai modd creu system a fyddai'n cael gwared ar unrhyw stigma a oedd ynghlwm wrth brydau ysgol am ddim gan sicrhau nad oedd dim byd yn atal disgyblion cymwys rhag hawlio prydau ysgol am ddim. Cytunwyd y byddai tîm datblygu systemau Technoleg Gwybodaeth Ceredigion yn ystyried hyn ymhellach ac yn datblygu system talu am fwyd ysgol nad ydyw'n dibynnu ar arian parod.

Ystyriwyd y cynigion arfaethedig o ran gwneud arbedion ar gyllideb 2015/16 a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys adolygu'r ddarpariaeth tacsis i'r ysgol, ac adolygu cludiant ar ôl 16 (Chweched Dosbarth / Coleg) – targed arbedion 2015/16: £500,000; dull rhanbarthol o ran cymorth i Lywodraethwyr– targed arbedion 2015/16: £20,000; adolygu trefniadau Cered (rheoli) – targed arbedion 2015/16: £11,000; lleihau Cyllideb refeniw Campws Felin-fach – targed arbedion 2015/16: £30,000; rhesymoli'r ysgolion cynradd - effaith rhan o flwyddyn yn 2015-16 – targed arbedion 2015/16: £150,000. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i'r Cabinet ar y cynigion. Bu i'r Pwyllgor ystyried yr opsiynau ychwanegol o ran arbedion arfaethedig ar gyfer 2015/16 a oedd yn ymwneud â'r Pwyllgor sef adolygu addysg ôl 16 ac ystyriodd ymhellach y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2015/16.

Rhodddwyd adroddiad ynghylch Deilliannau Disgyblion 2014 i'r Pwyllgor. Cyflwynir y wybodaeth yn flynyddol er mwyn gwerthuso perfformiad yr ysgolion a'r Gwasanaethau Dysgu. Roedd y wybodaeth hefyd o gymorth wrth drafod y tueddiadau a'r heriau a oedd yn parhau. Cytunodd y Pwyllgor ar gryfderau a meysydd ar gyfer gwella a fyddai wedyn yn sail ar gyfer gwaith parhaus y tîm gwella ysgolion.

Ystyriodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Polisi Adolygu Ysgolion. Tynnwyd sylw at y ffaith bod pob un o chwe dalgylch Ceredigion yn cael eu hadolygu yn eu tro; a bod y meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu ysgolion ar gyfer eu hadolygu wedi'u dileu o'r polisi. Bu i'r Pwyllgor argymhell y newidiadau diwygiedig i'r Polisi Adolygu Ysgolion i'r Cabinet a'r Cyngor, gan gynnwys y newidiadau canlynol:

1. Bod Panel Adolygu Ceredigion yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn ogystal â dau aelod arall o'r Pwyllgor;
2. Bod Aelodaeth y Panel Adolygu yn wleidyddol gytbwys.

Rhodddwyd diweddariad chwe misol ynghylch Grŵp Gweithredol Plant a Phobl Ifanc y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r Pwyllgor. Nodwyd bod Grŵp Gweithredol Plant a Phobl Ifanc y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi sefydlu grwpiau ar gyfer pedair ffrwd

gwaith. Ystyriwyd y cardiau adrodd o ran canlyniadau blaenoriaethol Cefnogi Teuluoedd yn y Cynllun Integredig Sengl.

Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Gweithredu Chwarae Ceredigion 2013/14 ynghyd â'r camau gweithredu a fyddai'n cael eu dwyn ymlaen i Gynllun Gweithredu Chwarae 2014/15.

Ystyriwyd y Cytundeb Partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Ysgolion ar gyfer 2015-2018. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid argymhell i'r Cabinet gymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Ysgolion ar gyfer 2015-2018. Nodwyd y byddai angen i Gorff Llywodraethu pob ysgol gymeradwyo'r cytundeb ar ôl i'r Cabinet ei gymeradwyo er mwyn iddo fod ar waith o 01 Medi 2015 ymlaen.

Bu i'r Pwyllgor ystyried yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg yn ardal Aberystwyth. Cyflwynodd Mr Alun Morgan yr argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad annibynnol yr oedd wedi'i baratoi.

Yn ystod y cyfarfod, ystyriwyd y canlynol:

(i) byddai adolygiad o'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Cwmpadarn ac Ysgol Gynradd Llangynfelyn yn cael ei gynnal;

(ii) byddai adolygiad ynghylch y posibilrwydd o greu Ysgol 3 – 19 Cyfrwng Cymraeg ar safleoedd yr Ysgol Gymraeg ac Ysgol Penweddig er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn ardal Aberystwyth yn cael ei gynnal;

(iii) byddai ffyrdd a dulliau o leihau nifer y penaethiaid sydd ag ymrwymiad addysgu o dros 0.5 yr wythnos yn cael eu canfod;

(iv) byddai'r syniad o greu Cymuned Ddysgu Broffesiynol rhwng Llanfarian, Llangwryfon a Llanfihangel y Creuddyn yn cael ei ystyried;

(v) byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal deialog broffesiynol barhaus gyda'r holl ddarparwyr, gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth, strwythur a'r ddarpariaeth addysg ôl-16 gyn-alwedigaethol a galwedigaethol yn ardal Aberystwyth; a

(vi) byddai'r opsiynau ynghylch cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Aberystwyth yn cael eu hystyried.

Ystyriwyd yr adroddiad diweddar ynghylch Rhaglen Dechrau'n Deg yng Ngheredigion. Dywedodd Rheolwr Dechrau'n Deg fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor i sicrhau bod Tîm Dechrau'n Deg yn cyfrannu at wella canlyniadau i deuluoedd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Sir.

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu Chwarae Ceredigion 2015/16 i'r Pwyllgor. Roedd y cynllun yn addas at y diben ac yn un y byddai modd ei gyflawni ac roedd yn

cydymffurfio ag amserlen Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y canllawiau statudol. Argymhellwyd yr adroddiad i'r Cabinet ei gymeradwyo.

Ystyriodd y Pwyllgor y Grant Gwella Addysg. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol ynghylch arian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Yn 2015-16, roedd Llywodraeth Cymru yn rhesymoli'r grantiau unigol a oedd yn cynnwys yn rhesymoli grantiau unigol sy'n cynnwys y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, y Grant Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cyfnod Sylfaen, i un grant sef y Grant Gwella Addysg. Cafodd Consortiwm ERW lythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch y ffordd y caiff arian ei ddsbarthu i'r 6 awdurdod. Nodwyd y trefniadau newydd ar gyfer y Grant Gwella Addysg a'r goblygiadau i ddysgwyr Ceredigion. Byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen chwe mis a fyddai'n cynnwys unrhyw bryderon gan yr awdurdodau eraill yn rhanbarth ERW.

Ystyriwyd presenoldeb disgyblion a'r Cod Ymddygiad ar gyfer dirwyon absenoldeb. Datblygwyd y Cod er mwyn gosod mesurau i sicrhau cysondeb wrth gyflwyno dirwyon absenoldeb mewn achosion o absenoldeb heb awdurdod.

Ystyriwyd dogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru a oedd yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol er mwyn sicrhau bod systemau effeithiol mewn lle i gefnogi'r gwaith o greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel ar gyfer plant a phobl ifanc gan ddelio hefyd â phryderon lles plant a chymryd camau i fynd i'r afael â hwy os bydd angen.

## Ffrydiau Gwaith

Sefydlodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu bedair ffrwd waith ar gyfer codi ymwybyddiaeth, dibenion hyfforddi a nodi agweddau y mae angen rhagor o graffu arnynt fel rhan o'r broses o gynllunio'r flaenraglen waith. Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys pedwar aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac mae'r Cadeirydd yn mynd iddynt ac yn cyfrannu at bob un o'r pedwar.

Ystyriwyd y ffrydiau gwaith presennol a'r newidiadau arfaethedig i'w gwneud yn fwy cyson â strwythur newydd y Gwasanaethau Dysgu.

Addaswyd strwythur y ffrydiau gwaith i gynnwys y strwythur newydd:

<p><b><u>Safonau Mewn Ysgolion</u></b></p> <p><u>Pwnc Cyntaf:</u></p> <p><u>Categori Ysgolion</u></p>	<p><b><u>Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant a Lles</u></b></p> <p><u>Pwnc Cyntaf:</u> <u>Datblygiadau ym maes Anghenion Addysgol Arbennig</u></p>	<p><b><u>Ymgysylltu leuenctid ac Addysg Barhaus</u></b></p> <p><u>Pwnc Cyntaf:</u></p> <p><u>Hyfforddiant Ceredigion / Dysgu seiliedig ar waith</u></p>	<p><b><u>Moderneiddio'r Seilwaith</u></b></p> <p><u>Pwnc Cyntaf:</u></p> <p><u>Polisi Adolygu Ysgolion</u></p>
<p><u>Swyddog Arweiniol:</u> Meinir Ebbsworth</p>	<p><u>Swyddog Arweiniol:</u> Gillian Evans</p>	<p><u>Swyddog Arweiniol:</u> Elen James</p>	<p><u>Swyddog Arweiniol:</u> Eifion Evans</p>

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar naw achlysur yn ystod blwyddyn 2014/2015.

### Materion allweddol a ystyriwyd.

Ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ystyriwyd yr adroddiad ynghylch Datblygu'r Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriodd y Pwyllgor y gwaith Cynnal a Chadw'r Priffyrdd dros y gaeaf yn 2014/15 gan gynnwys effaith torri £80,000 o gyllideb y Gwasanaeth fel rhan o strategaeth gyffredinol y Cyngor Sir o ran y gyllideb. Ystyriwyd cefndir sefyllfa gyfreithiol Gwasanaeth y gaeaf, y gwasanaeth presennol a'r dulliau a ddefnyddir i ddewis sut mae'r llwybrau yn cael eu Graeanu'n Rhagofalus. Cafodd y fethodoleg o ran asesu llwybrau ei fireinio yn dilyn penderfyniadau cyfarfodydd y Panel Adolygu Cynnal a Chadw'r Priffyrdd dros y gaeaf a gynhaliwyd yn 2013. Ystyriodd y Pwyllgor dri chynnig posibl ar gyfer sicrhau'r arbedion hyn:

1. Rhesymoli'r fflyd ar gyfer cynnal a chadw'r priffyrdd dros y gaeaf a thrin llwybrau sydd â sgôr o 4 neu fwy ymlaen llaw.
2. Rhesymoli'r fflyd cynnal a chadw'r priffyrdd dros y gaeaf a thrin llwybrau sydd â sgôr o 4 neu fwy ymlaen llaw ynghyd ag un llwybr i bob ysgol.
3. Rhesymoli'r fflyd ar gyfer cynnal a chadw'r priffyrdd dros y gaeaf a thrin llwybrau sydd â sgôr o 4 neu fwy ymlaen llaw ynghyd â'r ffyrdd i'r depos bysiau.

Ar ôl ystyried hyn, bu i'r Pwyllgor argymhell opsiwn 3 i'r Cabinet.

Edrychodd y Pwyllgor eto ar Gynnal a Chadw'r Priffyrdd dros y gaeaf yn ystod y flwyddyn. Er mwyn sicrhau arbedion o £80,000 yng nghyllideb Cynnal a Chadw'r Priffyrdd yn y gaeaf ar gyfer 2014/15, gwnaed yr argymhellion hyn:

- i. bod y prif lwybr i'r holl ddepos bysiau sy'n darparu cludiant cyhoeddus neu gludiant ysgol yn cael eu trin ymlaen llaw a bod y sgôr trothwy ar gyfer pob ffordd arall i fod yn gymwys i'w cynnwys yn yr atodlen graeanu rhagofalus ar gyfer 2014-15 yn cael ei osod ar sgôr o +4 neu uwch.
- ii. bod y fflyd graeanu cynnal a chadw dros y gaeaf a pheiriannau ac offer atodol eraill yn cael eu lleihau fel y nodir yn Nhabl A yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Rheoli Cyrchfan a oedd yn ddatblygiad a ddeilliai o Strategaeth Twristiaeth Ceredigion. Byddai'r gwaith o fonitro canlyniadau blaenoriaethol y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn seiliedig ar y cynllun gweithredu.



Rhoddodd Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion ei ddiweddariad blynyddol ynglŷn â'r Fforwm a oedd yn cynnwys rôl a gwaith y Fforwm, cyfraniad mynediad i gefn gwlad at dwristiaeth yng Ngheredigion, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion, y Gwirfoddolwyr, yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus a chyllidebau'r Hawliau Tramwy.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Rheoli Carbon a'r opsiynau o ran creu incwm trwy ynni adnewyddadwy gan gynnwys y cynnydd a wnaed a'r hyn yr oedd y Cynllun wedi'i gyflawni. Nodwyd gostyngiad o 7.4% mewn CO<sub>2</sub> o gymharu â ffigwr gwaelodlin 2011/12 ac roeddem ar y trywydd cywir i weld gostyngiad o 15% erbyn 2016/17. Tynnwyd sylw at astudiaethau achos a'u llwyddiannau gan gynnwys eiddo, gwelliannau i'r goleuadau stryd, fflyd cludiant, milltiroedd busnes a rheoli gwastraff. Roedd y broses o gyflwyno Operation Energy i'r ysgolion yn datblygu'n dda ac roedd cyfanswm o 24 ysgol yn cymryd rhan yn y prosiect hyd yma. Ychwanegwyd bod y system oeri yng Nghanolfan Rheidol yn darparu arbedion o £26,200 y flwyddyn a bod y cyfnod talu'n ôl o dan ddwy flynedd. Y bwriad oedd buddsoddi rhagor gan osod paneli solar ym Mhenmorfa a Minaeron a dechrau ar gam 2 y ganolfan ynni adnewyddadwy ym Mhlascrug er mwyn darparu ar gyfer Ysgol Penweddig a Chanolfan Hamdden Plascrug. Amcangyfrifid bod Prosiect Casglwyr Solar y Prosiect Arddangos Amlenni Adeiladau Cynaliadwy (SBED) yn Ysgol Bro Pedr, mewn partneriaeth â WEFO a Dur TATA, yn arwain at ostyngiad o 14.1 tonnell mewn CO<sub>2</sub> bob blwyddyn. Roedd trafodaethau ar y gweill ynghylch datblygu a pherchen tyrbinau gwynt gan ystyried yr incwm y gallai'r Cyngor ei sicrhau wrth osod safleoedd ar rent i Gwmnïau Menter Cymunedol.

Bu i'r Pwyllgor ystyried y broses a ddefnyddid i adolygu'r gwasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd ar ôl gweithredu Strategaeth Rheoli Gwastraff 2014 – 2018. Dywedwyd bod Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau wedi penodi ymgynghorwyr o AMEC i gynnal yr adolygiad dan Raglen Newid Gydweithredol Llywodraeth Cymru. Byddai'r adolygiad yn ystyried nifer o opsiynau casglu gwahanol. Byddai'r Pwyllgor yn rhoi mwy o fewnbwn pan fyddai casgliadau'r adolygiad wedi dod i law.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch stormydd Ionawr 2014 a'r cyfnod adfer. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau at y dyfodol. Daethpwyd i'r casgliad bod ymateb y Cyngor yn un effeithiol.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol 2013 -14 a oedd wedi'i baratoi ar ddiwedd blwyddyn gyntaf gweithredu'r CDLI ac a fyddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dywedwyd nad oedd dim problemau sylweddol wedi'u nodi o ran gweithredu'r strategaeth. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at broblemau a allai godi pe na fyddai'r Cyngor yn cadw at y polisiau a'r gweithdrefnau.

Ystyriwyd y cynigion arfaethedig o ran gwneud arbedion ar gyllideb 2015/16 a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys cynhyrchu incwm trwy ddatblygu Tyrbîn Gwynt Cymunedol – targed arbedion: £30,000; y model cyflenwi gwasanaethau ar gyfer darparu cyfleusterau ar y prom a'r cyffiniau yn Aberystwyth e.e. y bandstand, y pwll padlo, golff gwirion – targed arbedion: £11,000; adolygu'r pryddlesau sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau cyhoeddus ar dir trydydd parti – targed arbedion: £7,000; adolygu'r model cyflenwi gwasanaethau ar gyfer darparu gwelyau blodau – targed arbedion: £40,000; adolygu'r ddarpariaeth hebryngwyr croesfannau ysgol – targed arbedion: £20,000; lleihau'r gwariant ar gynnal a chadw'r priffyrdd - targed arbedion: £100,000; adolygu cymhorthdal y bysiau ac/neu adolygu nifer y llwybrau – targed arbedion: £250,000; darpariaeth y Ceir Cefn Gwlad – targed arbedion: £10,000; darpariaeth y Canolfannau Croeso - targed arbedion: £60,000; cyfleoedd i gydweithio o ran y gwasanaethau tai strategol a chynllunio – targed arbedion: £20,000; amrywio oriau agor Amgueddfa Ceredigion ac ailstrwythuro staff - targed arbedion: £23,000; y ddarpariaeth o ran meysydd chwarae plant - targed arbedion: £16,000 a Chanolfan Bwyd Cymru Horeb - targed arbedion: £10,000.

Ystyriodd y Pwyllgor ddewisiadau ychwanegol ar gyfer gwneud arbedion yn 2015/16 yn dilyn y gyfres gyntaf o arbedion. Y dewisiadau ychwanegol ar gyfer gwneud arbedion a ystyriwyd gan y Pwyllgor oedd arbedion oherwydd gostyngiad ym mhris tanwydd ac adolygu ymhellach ar gymhorthdal y bysiau ac/neu adolygu nifer y llwybrau.

Bu i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad ynghylch cyflwyno a gorfodi Safonau Adeiladu cynaliadwy. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gofyniad presennol ar gyfer adeiladu anheddau newydd, yn dilyn tynnu'r gofynion polisi cynllunio o ran cydymffurfio â'r Cod ar gyfer Tai Cynaliadwy yn ôl. Codwyd pryderon ynghylch a oedd cwmnïau rheoli adeiladu preifat yn cael eu rheoleiddio. Anfonwyd gohebiaeth at y Gweinidog i fynegi'r pryderon hyn.

Ystyriodd y Pwyllgor ystyried yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch Canolfan Bwyd Cymru yn Horeb. Gwnaeth yr astudiaeth ddichonoldeb, a wnaed gan BIC Innovation ystyried yr opsiynau posib ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yn y Ganolfan Fwyd i'r dyfodol. Rhoddwyd briff i *BIC Innovation* ymchwilio i'r ddarpariaeth o ran y gwasanaeth yn y dyfodol ar y sail na ddylai'r Ganolfan fod yn ddibynnol ar arian refeniw Cyngor Sir. Ymhlith y datganiadau allweddol roedd y rhai positif yn cynnwys fod Canolfan Bwyd Cymru yn enw 'brand' da a bod ganddi hanes da o ran ansawdd gwaith a chyflawni gwaith. Roedd rhai o'r datganiadau allweddol llai positif yn cynnwys diffyg ffocws strategol a bod y Ganolfan yn ddiweddar wedi ei harwain a'i rheoli'n wael yn ogystal â marchnata gwael. Bu i'r adolygiad gynnwys cysylltu â Chanolfannau Bwyd eraill yn y Deyrnas Unedig, cyfweiliadau gyda Llywodraeth Cymru, cleientiaid, staff, grwpiau ffocws cleientiaid a phartneriaid posib. Derbyniwyd nifer o negeseuon positif yn ymwneud a chanlyniadau da, gwaith datblygu camau cynnar a chefnogaeth dechnegol. Roedd y sylwadau negyddol yn cynnwys sylwadau

nad oedd y Ganolfan yn ddigon holistaidd, nad oedd yn darparu llwybr clir i'r farchnad ac nad oedd ychwaith yn mabwysiadau elfen o weithio ar y cyd wrth ymdrin â materion yn ogystal â diffyg gwefan a synnwyr o fod yn ynysig. Roedd angen pwysleisio mwy ar lwyddiant, gan adeiladu ar yr enw da sydd gan y ganolfan a chynllunio system reoli o ansawdd.

Cafodd penderfyniad y Cabinet ynghylch ffioedd a thaliadau 2015/16 a chynyddu taliadau parcio yn Gloster Row ei alw i mewn. Dywedodd yr Aelod Lleol fod y trigolion lleol a oedd yn byw gerllaw'r maes parcio'n credu bod y cynnydd yn annheg, yn enwedig felly gan fod llifogydd cyson yno a bod llawer o'r trigolion yn oedrannus ac yn fregus neu'n anabl. Fel rhan o'r galw i mewn, aeth y Pwyllgor ar ymweliad â'r safle. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Cymunedau Cynaliadwy, Huw Morgan, y byddai cynyddu'r ffioedd a'r taliadau yn Gloster Row yn eu gwneud yr un fath â meysydd parcio eraill yn yr un band ac yn sicrhau cysondeb ar hyd a lled y sir. Esboniodd y bu'n rhaid gohirio'r ffioedd a'r taliadau gwreiddiol a gyflwynwyd y llynedd oherwydd y llifogydd yn Aberteifi. Roedd arian wedi'i wario ar faes parcio Gloster Row er mwyn gwella'i safonau a chydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch. Cytunwyd y dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i wneud mwy o waith ar y drefn o godi tâl am barcio. Bu i'r Pwyllgor argymhell y dylai'r Cabinet ailystyried, fel bod y ffioedd a'r taliadau yn Gloster Row yn 2015/16 yn aros yr un fath â 2014/15.

Yn dilyn y gwaith yr oedd y Pwyllgor wedi'i wneud o'r blaen ynghylch Canolfan Bwyd Cymru a'r arbedion a nodwyd yn y gyllideb o ran Arlwyo, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad arall i graffu ar y cynnig. Dywedwyd bod arlwyo yn cael cymhorthdal o £2m ar hyn o bryd a gosodwyd y targed er mwyn lleihau'r cymhorthdal yn sylweddol. Paratoi prydau ar gyfer ysgolion cynradd oedd gwaith mwyaf y gwasanaeth arlwyo. Un o'r opsiynau a ystyriwyd oedd defnyddio Canolfan Bwyd Horeb ar gyfer yr holl arlwyo. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr adnoddau, y costau cludo a'r costau o ran staff, bach iawn fyddai'r arbedion a byddai gwneud hyn yn golygu newid mawr. Ystyriwyd felly fod yr opsiwn hwn yn aneffeithiol. Yn sgil hyn, roedd nifer o fesurau eraill yn cael eu harchwilio gan gynnwys lleihau costau rheoli, adolygu bwydlenni a chostau cynhyrchu a'r posibilrwydd y byddai gostau rheoli, adolygu'r bwydlenni a'r costau cynhyrchu ac efallai cynnig y cyfle i staff ymddeol yn gynnar o'u gwirfodd. Gellid arbed mwy o arian drwy gau ceginau mewn rhai ysgolion cynradd. Byddai ceginau mewn ysgolion cyfagos yn medru cyflenwi'r prydau bwyd. Hefyd, ni fyddai staff yr ysgolion yn cael prydau bwyd am ddim am oruchwylio dros yr awr ginio mwyach ac yn cael eu talu am hynny yn ariannol.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Cynnal a Chadw'r Priffyrdd fel y nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Codwyd materion ynghylch cynnal a chadw cwteri a gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad arall. Nodwyd bod y gwasanaeth yn gweithredu rhaglen o gynnal a chadw rheolaidd, gyda'r nod o wacáu pob cwter unwaith y flwyddyn, ac yn amlach os ceir unrhyw drafferthion. Archwilid yr holl gwteri dosbarth 1 a 2 ond nid oedd pob cwter yn hysbys. Ni fu cynnydd yn y gyllideb sylfaenol ar

gyfer cynnal a chadw yn yr wyth mlynedd flaenorol. Roedd y gwasanaeth yn ymdrechu i ymateb i bob cwyn ac yn canolbwyntio ar yr ardaloedd lle mae'r problemau gwaethaf. Nododd y Pwyllgor fod ffyrdd Ceredigion wedi'u graddio'n bedwerydd o'r gwaelod yng Nghymru. Serch hynny, roedd y gwasanaeth yn perfformio cystal â phosib o fewn y cyfyngiadau ar y gyllideb, ac roedd y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) wedi canmol Ceredigion fel un o'r cynghorau oedd wedi gwella fwyaf o ran priffyrdd. Gofynnwyd i'r staff wneud yn well o ran gwasgaru'r twmpathau a adewir wrth ymyl y ffyrdd ar ôl glanhau'r cwteri. Gofynnwyd i'r swyddogion grybwyll y drafferth o ran y sglodion pren a oedd yn cael eu gadael ar y ffordd pan fyddent yn cwrdd nesaf â'r cwmnïau cyfleustodau. Bu i'r Pwyllgor hefyd argymhell i'r Cabinet y dylid diogelu'r gyllideb ar gyfer cynnal a chadw'r priffyrdd, gan fod sicrhau ffyrdd o ansawdd da yn cyfrannu at holl amcanion gwella'r Cyngor.

Bu i'r Pwyllgor graffu ar Gynnal a Chadw Pontydd yn dilyn pryderon ynghylch gwerth am arian. Esboniwyd mai'r drefn arferol oedd rhoi contract ar gyfradd ddyddiol i gontractwyr oedd yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar bontydd lle nad oedd maint y broblem yn hysbys. Roedd hynny'n cynnig hyblygrwydd i'r contractwyr a'r Cyngor fel ei gilydd. Caiff contractwyr ar gyfraddau dyddiol eu goruchwyllo'n agos. Roedd staff a chontractwyr yn cwrdd ar y safle ac yn pennu maint y gwaith a nifer y diwrnodau y byddai'n ei gymryd i'w gyflawni. Byddai'r gyfradd a dalwyd o dan y contract yn cynnwys yr holl beiriannau a ddefnyddiwyd, costau defnyddiau a chostau am bethau fel sgaffaldiau a gwaredu gwastraff ac yn y blaen. Pwysleisiwyd bod y gwaith o gynnal a chadw'r pontydd yn cael ei gaffael yn gwbl unol â Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor. Gallai contractwyr wneud cais i fynd ar y rhestr o dendrwy, ac roedd yn rhaid iddynt ddangos eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau priodol neu dystysgrifau. Rhoddid sgôr i berfformiad pob contractwr. Os byddai contractwyr yn perfformio'n wael gellid eu tynnu oddi ar y rhestr ddethol.

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â'r gwaith a oedd yn parhau o ran Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion. Cafodd y cynllun ei baratoi ar y cyd â sefydliadau perthnasol eraill a chafodd ei lansio ym mis Mehefin 2014. Roedd y Cynllun yn hanfodol o ran sicrhau arian ar gyfer twristiaeth yn y sir. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, roedd 3 miliwn o bobl yn ymweld â Cheredigion bob blwyddyn ac roedd y rhain yn treulio 8.3 miliwn o ddiwrnodau yn y sir gan ddod ag incwm o £300 miliwn a 5,700 o swyddi i'r ardal.

Nododd y Pwyllgor nad oedd dim cwynion wedi dod i law hyd yma yn dilyn y penderfyniad i gau Canolfannau Croeso yn y sir ar ddydd Sul yn sgil y penderfyniad a wnaed o ran gwneud arbedion ar y gyllideb. Roedd y Ganolfan Groeso yn Aberaeron yn dal ar agor ar ddydd Sul ar ôl i'r Cyngor ddod i gytundeb gyda Chyngor Tref Aberaeron i ariannu hyn. Roedd cais a ddaeth i law yn gofyn a fyddai modd i wirfoddolwyr redeg rhai Canolfannau Croeso ar ddydd Sul yn cael ei ystyried. Bu'r cynllun o wneud incwm drwy godi 30 – 35% am werthu nwyddau lleol, megis

cell a chreffft, yng Nghanolfan Groeso Aberaeron yn llwyddiannus. Byddai cynllun tebyg yn cael ei roi ar waith yng Nghanolfan Groeso Aberystwyth ar ôl i'r ganolfan symud i'r adeilad newydd gydag Amgueddfa Ceredigion. Cytunodd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi ymrwymo i rôl strategol twristiaeth o ran cefnogi'r economi yn gyffredinol yng Ngheredigion a bu iddynt argymhell i'r Cabinet y dylai'r gyllideb ar gyfer twristiaeth gael ei diogelu yn 2015/16 ac y dylai'r gyllideb gynyddu pan fyddai arian yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynd i gyfarfodydd y Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol.

Mae'r fforwm hwn yn caniatáu i aelodau'r Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol ddod ynghyd i wneud y canlynol:

- cael agwedd holistaidd o berfformiad y Cyngor;
- nodi ac archwilio materion trawsbynciol lefel uchel sy'n effeithio ar fwy nag un maes gwasanaeth e.e. diwygio lles;
- herio perfformiad gwael mewn modd beirniadol; a
- nodi'r cyfleoedd i wella gwasanaethau, y risgiau i'r modd y cyflenwir y gwasanaethau a'r goblygiadau o ran adnoddau.

Mae hyn yn caniatáu i'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion nodi pynciau sydd angen i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu roi mwy o sylw iddynt a'u cynnwys ar Flaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau.

## Presenoldeb y Cynghorwyr

Mae cofnodion presenoldeb 2014/15 ar gael ar dudalennau unigol y Cynghorwyr ar wefan y Cyngor: <http://www.ceredigion.gov.uk/English/Your-Council/Councillors-Committees/Councillors/Pages/default.aspx>

**Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu  
Dwynwen Jones, Swyddog Cymorth Trosolwg a Chraffu**